

NEWYDDION - GWIRFODDOLI I'R IFANC

Gwanwyn 2013

Croeso i Newyddion Gwirfoddoli i'r Ifanc a gyhoeddir gan Ganolfan Gwirfoddolwyr Wrecsam ar gyfer Sefydliadau sy'n ymdrin â phobl ifanc ac yn cynnwys gwirfoddolwyr ifanc.

NEWYDDION A DIGWYDDIADAU

HANES GWIRFODDOLI – YN EISIAU: STRAEON GAN WIRFODDOLWYR

Eleni mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) yn 25 oed – ein Jiwbilî Arian – ac i nodi'r achlysur rydym am gynnal arddangosfa arbennig a chyhoeddi llyfr ar hanes gwirfoddoli yn ardal Wrecsam dros y blynyddoedd. Mae gan Wrecsam hanes hir o wirfoddoli yn ogystal ag ethos gwirfoddoli cryf. Mae gwirfoddolwyr wedi chwarae eu rhan i siapio bywyd a chymdeithas Wrecsam a'r fro.

Adroddwch eich stori, rhannwch eich profiadau!

- A fu i chi erioed gymryd rhan mewn prosiect gwirfoddol neu a ydych wedi treulio amser yn gwneud gwahaniaeth i fywyd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam?
- Oes gennych chi ffotograffau, arteffactau, cerddi neu straeon am y digwyddiadau hyn?
- Ydych chi'n hanesydd lleol brwd ac yn dymuno rhannu eich gwybodaeth? Neu, ydych chi'n aelod o'r gymuned leol yn Wrecsam â stori dda i'w hadrodd?
- Ydych chi'n byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam neu ydych chi wedi gwirfoddoli yn y sir?

Does dim ots faint o flynyddoedd sydd wedi mynd heibio, dywedwch wrthym sut rydych chi wedi gwneud gwahaniaeth i'r ardal a'r bobl sy'n byw yma drwy wirfoddoli. Cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at john.ellis@avow.org neu ffoniwch 01978 312556.

LLWYDDIANT GRANTIAU GWIRVOL DAN ARWEINIAD POBL IFANC

Mae rownd ddiweddaraf Grantiau Gwirvol dan Arweiniad Pobl Ifanc 2012/13 wedi dirwyn i ben am eleni, a derbyniodd 10 prosiect ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam gymorth ariannol. Cafodd ychydig dros £4500 eu dyrannu i brosiectau gwahanol, megis cynorthwyo'r Geidiau ('Girl Guides') i drefnu Cinio a Chyngerdd Gŵyl Sant Padrig ar gyfer yr Henoed a chynllun gan ddau grŵp o bobl ifanc i adeiladu gwelyau plannu uchel er mwyn tyfu llysiâu.

Bydd rownd nesaf Grantiau Gwirvol dan Arweiniad Pobl Ifanc 2013/14 yn dechrau eto ym mis Ebrill.

GWADDOL Y GEMAU OLYMPAIDD YN ANNOG POBL IFANC I WNEUD DROS 10,000 AWR O WAITH GWIRFODDOL YM MAES CHWARAEON

O ganlyniad uniongyrchol i'r Gemau Olympaidd, fe wnaeth pobl ifanc Cymru wneud dros 10,000 awr o waith gwirfoddol i gefnogi gweithgareddau chwaraeon ledled y wlad yn ystod blwyddyn gyntaf cynllun Chwaraeon MV50.

Cafodd y fenter Chwaraeon MV50, sef gwobr am waith gwirfoddol, ei lansio ym mis Medi 2011, fel rhan o gynllun hynod lwyddiannus Gwirfoddolwyr y Mileniwm a gwaddol y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd.

Cyflwynir y wobr hon i bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed sydd wedi gwneud 50 awr o waith gwirfoddol ym maes chwaraeon yn yr ysgol a'r gymuned – a disgwylir i'r wobr annog mwy o bobl i gadw'n heini, yn ogystal â 'grymuso ac ysbrydoli' pobl ifanc i fod yn fodelau rôl ac arweinyddion. I gael rhagor o wybodaeth am y Wobr, ewch i:

<http://www.gwirvol.org/en/volunteers/news-and-events/mv50sport-10000/>

LIVE UnLTD YN CHWILIO AM FASNACHWYR MARCHNAD IFANC

Mae'r fenter Live UnLtd wedi ymuno â Ffederasiwn Cenedlaethol y Masnachwyr Marchnad er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc dreialu eu cynnyrch eu hunain ar stondin farchnad. Bydd cyfle hefyd i gymryd rhan yn y Farchnad Ieuenctid Genedlaethol gyntaf a chael eu coronio'n Fasnachwr Ifanc y Flwyddyn o bosibl.

Mae angen i'r ymgeiswyr feddwl am gynnyrch i'w werthu a fyddai'n gallu bod o fudd i'r ardal. Efallai y bydd modd defnyddio deunyddiau lleol i greu'r cynnyrch, neu gynnig profiad gwaith i bobl ifanc eraill, neu gallai'r cynnyrch/gwasanaeth gynnig budd ariannol uniongyrchol i eraill gyda phob gwerthiant.

I gael rhagor o wybodaeth a manylion am sut i wneud cais, ewch i: <http://liveunltd.com/campaign-posts/young-trader-market-stall/>

DILYNWCH NI AR TWITTER

Mae Canolfan Gwirfoddolwyr Wrexham bellach ar Twitter! Os ydych chi'n Trydar ac yn dymuno ein dilyn ni, dyma ein enw defnyddiwr: **WrxVolCentre**

Canolfan Gwirfoddolwyr Wrexham



GRANTIAU

BLWYDDYN NEWYDD GRANTIAU GWIRVOL 2013/14

Mae'n bleser gan y fenter GwirVol gyhoeddi lansiad grantiau gwirfoddoli pobl ifanc 2013-2014.

Bwriad menter Grantiau Gwirfoddoli Pobl Ifanc GwirVol yw rhoi cymorth ariannol i ddarparu ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli yng Nghymru a thros y môr, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc rhwng 14-25 oed, yn enwedig pobl ifanc difreintiedig, yn cael cyfle i wirfoddoli. Mae cynllun grantiau GwirVol yn cynnig tri math o gymorth ariannol gwahanol.

- **Creu Cyfleoedd:** Ar gyfer sefydliadau sy'n awyddus i greu prosiectau gwirfoddoli ieuencid newydd, swyddogaethau gwirfoddoli ieuencid newydd neu recriwtio mwy o bobl ifanc i'r swyddogaethau gwirfoddoli presennol. Gall sefydliadau wneud cais am grant Creu Cyfleoedd hyd at uchafswm o £10,000.
- **Gwirfoddolwyr y Mileniwm:** Ar gyfer sefydliadau sydd am gydnabod ymroddiad pobl ifanc i wirfoddoli drwy gynnig Gwobr Rhagoriaeth i'r rheini sy'n gwirfoddoli am 200 awr. Gall sefydliadau wneud cais am grant Gwirfoddolwyr y Mileniwm hyd at uchafswm o £10,000.
- **Rhyngwladol:** Ar gyfer sefydliadau sy'n awyddus i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli dros y môr sydd hefyd o fudd i bobl ifanc a'u cymunedau yng Nghymru. Gall sefydliadau wneud cais am grant Rhyngwladol hyd at uchafswm o £30,000.

Sut i wneud cais:

I gael rhagor o wybodaeth, arweiniad a lawrlwytho ffurflenni cais, ewch i <http://www.gwirvol.org/en/organisations/funding/>

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 2pm, ddydd Mercher, 5 Mehefin 2013.

Mae'r fenter GwirVol hefyd yn gyfrifol am y grantiau StreetGames y gellir ymgeisio amdanynt drwy'r flwyddyn heb ddyddiad cau. Os yw eich sefydliad chi yn rhoi cyfle i wirfoddolwyr ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, gwnewch gais am grant StreetGames ar unwaith!

Dalier Sylw: Dim ond un rownd o grantiau GwirVol a gynhelir yn ystod 2013-2014. Ni fydd ail rownd ym misoedd Medi -Tachwedd 2013.

CYNLLUNIAU GWOBRAU GWIRFODDOLWYR

CYNLLUN GWOBRAU GWIRFODDOLWYR Y MILENIWM

****BELLACH YN AGORED I BLANT 14 A 15 OED****

Mae Cynllun Gwobr Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn gwobrwyo pobl ifanc rhwng 14 a 25 oed sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd. Y nod yn y pen draw yw gwirfoddoli am gyfnod o 200 awr er mwyn derbyn Gwobr Rhagoriaeth, ac fe gyflwynir tystysgrifau 50 Awr a 100 Awr ar hyd y daith i gydnabod eu hymdrechion.

Os oes gennych chi wirfoddolwyr yn eich sefydliad a fyddai'n hoffi ymuno â chynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm, neu os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â: Lynsey Edwards yn y Ganolfan Gwirfoddolwyr - ffoniwch 01978 312556 neu anfonwch e-bost at: lynsey.edwards@avow.org

GWOBRAU SÊR GWIRFODDOLI WRECSAM

Mae Gwobrau Sêr Gwirfoddoli – Canolfan Gwirfoddolwyr Wrecsam yn agored i unrhyw un sy'n gwirfoddoli. Does dim cyfyngiadau oedran i'r fenter hon.

Bwriad y fenter yw gwobrwyo a chydabod yr ymdrech a'r amser y mae gwirfoddolwyr yn ei dreulio'n gwirfoddoli ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Bydd tystysgrifau'n cael eu cyflwyno i wirfoddolwyr am wirfoddoli'r oriau canlynol:

- 10 Awr 50 Awr 100 Awr 200 Awr 500 Awr
- Gwobr am Wasanaeth Tymor Hir (gwobr enwebedig)

Os oes gennych chi wirfoddolwyr yn eich sefydliad a fyddai'n hoffi ymuno â'r Gwobrau Sêr Gwirfoddoli neu os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch â: Lynsey Edwards yn y Ganolfan Gwirfoddolwyr – ffoniwch 01978 312556 neu anfonwch e-bost at: lynsey.edwards@avow.org <<mailto:lynsey.edwards@avow.org>>

Lynsey Edwards – Swyddog Datblygu Gwirfoddoli i'r Ifanc
Tŷ AVOW, 21 Stryd Egerton, Wrecsam LL11 1ND Rhif ffôn: 01978 312556
E-bost: lynsey.edwards@avow.org